



Presennol:

Ann Evans (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, Arun Midha, Claire Morgan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths,

Hefyd yn bresennol:

Helen Bushell (HB), Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Kate Crabtree (KC), Joanne Nicholas (JN) – eitemau 1-3, Kerry Price (KP) – eitem 6, Emyr George (EG) – eitem 8, Rachel Heath-Davies (RHD) - eitem 9, Rebecca Olney (RO) - Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:

Rheon Tomos.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriad a gafwyd gan Rheon Thomas o ganlyniad i salwch. Nododd y Cadeirydd mai dyma oedd cyfarfod Bwrdd olaf RT cyn diwedd ei gyfnod a diolchodd yn ffurfiol iddo am ei gyfraniadau at Cymwysterau Cymru.
- 1.2. Cafwyd datganiadau o fuddiant; ni wnaed unrhyw ddatganiadau newydd yn ychwanegol at y rhai y rhoddwyd gwybod amdanynt eisoes.
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw faterion yr hoffent eu trafod o'r papurau gwybodaeth. Cytunwyd trafod y llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol (eitem 5). Nodwyd gweddill y papurau gwybodaeth (rhagolwg y cofnodion y Pwyllgor/calendr y bwrdd, Archwilio a Sicrhau Risg, y Pwyllgor Rheoleiddio a'r Pwyllgor Adnoddau).

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018 a Materion sy'n Codi

- 2.1. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf eu cadarnhau fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.
- 2.2. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu yn y cofnodion. Roedd pob un ohonynt naill ai wedi'u cwblhau neu roeddent ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

Materion sy'n Codi

- 2.3. Gofynnodd y Bwrdd am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar y polisi Amodau Trosglwyddo. Cadarnhaodd HB fod yr ymgynghoriad wedi mynd yn fyw ar 3 Medi ac y byddai'n cau ar 26 Tachwedd. Byddai'r polisi'n dychwelyd naill ai i gyfarfod mis Ionawr neu gyfarfod mis Mawrth 2019 y Bwrdd i'w adolygu.

- 2.4. Gofynnodd y Bwrdd am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ohebiaeth â Phwyllgor Deisebau'r Cynulliad ynglŷn â chymhwyster TGAU Seicoleg. Cadarnhaodd PB fod Cymwysterau Cymru wedi ymateb i'r Pwyllgor.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gan nodi mân addasiadau.
- ii. Nododd y Bwrdd fod pob un o'r camau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu eu bod ar yr agenda i'w trafod/diweddarau heddiw.

3. Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru

- 3.1. Cyflwynodd Helen Bushell (HB) a Joanne Nicholas (JN) yr eitem gan gadarnhau ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r sefydliad gyhoeddi adroddiad blynyddol er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu arno. Bwriadwyd cyhoeddi'r ddogfen ddiwedd mis Tachwedd cyn yr adolygiad a drefnwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 6 Rhagfyr 2018.
- 3.2. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad, gan ganmol y ddogfen yn ogystal â'r cyflawniadau a nodir ynddi. Gwnaed amrywiaeth o argymhellion i'w hystyried ar gyfer fformat y flwyddyn nesaf, yn ogystal â rhai mân newidiadau i gynnwys eleni.
- 3.3. Cadarnhaodd HB y gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a dirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol, yn dilyn mân addasiadau, i'r Prif Weithredwr. Cymeradwyodd y Bwrdd y cais.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol a gwnaeth ddirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Weithredwr.

4. Adroddiad y Cadeirydd

- 4.1. Roedd y Cadeirydd (AE) wedi llunio adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y Bwrdd gan fod nifer o ddiweddariadau a materion i'w trafod. Nododd y Bwrdd fod rhai newidiadau i aelodaeth y Pwyllgorau wedi'u gwneud, o ran aelodau'r Bwrdd, ac y byddai CM yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio. Diolchodd AE i IN am ei gwaith yn cadeirio'r Pwyllgor Rheoleiddio
- 4.2. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg pryd y byddai cyfrifydd newydd ar gael i ymuno â'r Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cadeirydd y câi hwn ei drafod ym mater 11.

Rôl y Pwyllgor Rheoleiddio

- 4.3. Dros y misoedd diwethaf, mae rôl y Pwyllgor Rheoleiddio (PR) wedi cael ei thrafod. Y cam y bu'n rhaid i'r Cadeirydd ei gymryd yn sgil cyfarfod y Bwrdd ym mis

Gorffennaf oedd ystyried yr holl adborth cyn dod i unrhyw gasgliad am rôl y Pwyllgor yn y dyfodol.

- 4.4. Yn dilyn trafodaeth bellach â'r tîm Gweithredol a'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, daeth y Cadeirydd i'r casgliad y dylid cadw'r pwyllgor, gan adolygu dyddiadau er mwyn ystyried yr amseru rhwng cyfarfodydd Bwrdd, ac y dylai'r tîm gweithredol ddefnyddio cyfres syml o egwyddorion er mwyn nodi ble mae fwyaf priodol i drafod mater gyntaf. Os oes unrhyw amheuaeth, dylent gysylltu â'r Cadeirydd Rheoleiddio neu Gadeirydd y Bwrdd.
- 4.5. Nododd y Bwrdd gasgliad y Cadeirydd a gwnaeth gefnogi'r argymhelliad.

Rôl yr Is-gadeirydd

- 4.6. Yn dilyn y drafodaeth yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, ystyriodd AE adborth y Bwrdd a darparodd bapur trafod gyda'i hadroddiad. Nid argymhellwyd penodi Is-gadeirydd, ond yn hytrach ddefnyddio'r senarios a nodwyd yn flaenorol er mwyn camu i'r adwy pan fyddai'r Cadeirydd yn absennol. Roedd sawl rheswm dros yr argymhelliad fel y'u hamlinellir yn y papur y gwnaeth y Bwrdd ei drafod.
- 4.7. Yn dilyn trafodaeth, gwnaeth y Bwrdd gefnogi argymhelliad y Cadeirydd i beidio â phenodi Is-Gadeirydd ar hyn o bryd, gan nodi efallai y bydd Cadeirydd y dyfodol am ailystyried hyn eto. Cytunodd y Bwrdd y dylid canolbwyntio ar recriwtio Cadeirydd newydd yn barod ar gyfer hydref 2019 pan fydd AE yn rhoi'r gorau iddi.

Y Diweddaraf gan y Cadeirydd

- 4.8. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd ei bod wedi cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Llywodraeth Cymru ac ar wahân ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, fel rhan o'i hadolygiad perfformiad blynyddol. Roedd y ddau gyfarfod yn gadarnhaol iawn a chafwyd adborth cadarnhaol am y sefydliad. Teimlai'r Cadeirydd fod pobl yn ymddiried yn Cymwysterau Cymru ac yn ei werthfawrogi.
- 4.9. Nododd gweddill adroddiad y Cadeirydd gyfres o weithgareddau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, busnes/llywodraethu'r Bwrdd, ymgysylltu gweithredol a meysydd ffocws gwaith eraill.

Cam gweithredu: AE i rannu'r adborth o'i chysylltiadau allanol â staff mewn digwyddiad priodol.

- 4.10. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nododd y diweddiariad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd gasgliad y Cadeirydd ynghylch rôl y Pwyllgor Rheoleiddio a chytunodd y dylai barhau;
- ii. Trafododd y Bwrdd argymhelliad y Cadeirydd i beidio â phenodi Is-gadeirydd ar hyn o bryd, a gwnaeth gefnogi'r argymhelliad hwnnw gan gytuno i ddefnyddio'r

- senarios yn ymwneud ag absenoldeb y Cadeirydd pe byddai sefyllfa'n codi lle y byddai angen eu defnyddio;
- iii. Nododd y Bwrdd gynnwys cyffredinol diweddariad y Cadeirydd.

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 5.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol gan nodi ei fod yn cwmpasu eitemau nad ydynt yn ymddangos rywle arall ar yr agenda.
- 5.2. *Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol* – Crynhodd PB y wybodaeth ddiweddaraf a roddodd ar lafar ar Ddiwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Medi, cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gynhwysfawr am y sefyllfa bresennol o fewn y prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cadarnhaodd PB pa gymwysterau newydd fyddai'n barod i'w haddysgu am y tro cyntaf, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol, a'r rhai a fyddai'n wynebu oedi a pham. Cadarnhaodd PB fod Cymwysterau Cymru wedi ysgrifennu at y Consortiwm i gadarnhau'r cynlluniau hyn ac at Ganolfannau er mwyn eu hysbysu ynghylch y penderfyniad i gyflwyno cymwysterau newydd fesul cam dros ddwy flynedd.
- 5.3. *Cyllid i gefnogi gwaith Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r Cwricwlwm newydd i Gymru* - Amlinellodd PB fod Cymwysterau Cymru wedi'i gwneud hi'n glir ers peth amser y bydd angen mwy o gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gweithgarwch ychwanegol i ddatblygu cymwysterau ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Darparwyd ffigur dangosol cyffredinol o tua £5M i Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni. Wrth i'r gwaith cynllunio ddatblygu ymhellach, mae'r ffigur wedi cael ei fireinio. Yr amcangyfrif presennol yw y bydd angen £4.8M. Gellir rheoli rhan o'r ffigur hwn drwy'r gyllideb bresennol, ond rhagwelir ar hyn o bryd y bydd angen cyllid ychwanegol o £4.3M – mae hyn yn tybio na fydd cyllid craidd y sefydliad yn newid ac nad oes unrhyw alw annisgwyl sylweddol arall ar y cyllid craidd hwn. Roedd PB wedi cynnwys taenlen fanwl yn ei adroddiad, a gwnaeth y Bwrdd ei hystyried a'i thrafod. Cadarnhaodd PB fod y ffigurau manwl wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Rheoli Chwarterol diweddar a chawsant eu derbyn yn gadarnhaol.
- 5.4. *Adolygiad o'r Sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu* – Cadarnhaodd PB y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ddechrau mis Rhagfyr. Roedd cynllun lansio, gan gynnwys gweithgarwch ar gyfer y cyfyngau, wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn parhau i fod yn gyson â'r rhai a gafodd eu rhannu â'r Bwrdd yn flaenorol. Y prif ganfyddiadau oedd y cynnig i ddatblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster TGAU newydd ym maes Technolegau Digidol i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021, a chymhwyster UG/Safon Uwch newydd i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022.
- 5.5. *Amcanion Cydraddoldeb 2018/19 i 2022* – Nododd PB y bwriedid cyflwyno amcanion ar gyfer y dyfodol i'r Bwrdd benderfynu arnynt yn ystod cyfarfod mis Hydref, ond y penderfynwyd gohirio hyn tan gyfarfod Bwrdd mis Ionawr. Bydd hyn

yn ein galluogi i gwblhau'r gwaith ymgysylltu ychwanegol â grwpiau cynrychioliadol.

- 5.6. *Cefnogi Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol* – Cadarnhaodd PB fod Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol wedi gofyn i'r sefydliad gefnogi ei gofynion TG, fel rydym yn ei wneud ar gyfer y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. Mae Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn sefydliad bach sy'n cynnwys chwe pherson (nad ydynt wedi'u recriwtio eto) a fydd yn cael ei sefydlu gyda swyddfa yn Abertawe. Esboniodd PB fod y staff wrthi'n ystyried eu gofynion, ond bod y rhain yn ymddangos yn syml iawn i'w bodloni. Cadarnhaodd PB, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd, yr hoffai gynnig cymorth i Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ar yr un sail â'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol – hynny yw drwy gytundeb nad yw'n gyfrwymol. Trafododd y Bwrdd y cynnig ac, er budd egwyddorion gwasanaethau a rennir yn y sector cyhoeddus, ac ar y sail nad oedd unrhyw risg i Cymwysterau Cymru, cefnogodd gynnig PB.
- 5.7. *Lefelau T* – Nododd PB fod y risg sy'n gysylltiedig â'r ffaith na chât Cymwysterau Technegol eu cynnig yng Nghymru wedi lleihau gan fod dogfennau caffael yr Adran Addysg yn pennu sefyllfa lle y gellir eu cynnig, gyda chaniatâd y Sefydliad Prentisiaethau, os nad ydynt yn cyfeirio at y teitl lefel T.
- 5.8. *Grŵp Cyngori ar Ymchwil* – Cadarnhaodd PB fod chwe unigolyn allanol wedi'u penodi i'r grŵp newydd a bod y cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 29 Tachwedd. Cadarnhaodd PB eto y caiff y Grŵp Cyngori ar Ymchwil ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol ac y bydd yn atebol i'r strwythur llywodraethu mewnol drwy'r Cyfarwyddwr Gweithredol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a chymeradwyodd y cais i ddarparu cymorth TG i Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.

6. Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Ariannol Chwarter 2 (2018-19)

Ymunodd Kerry Price (KP) â'r Bwrdd.

Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol

- 6.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter dau yn erbyn y cynllun gweithredol. Ddiwedd mis Medi mae pedwar o'r blaenoriaethau gweithredol wedi'u graddio'n wyrdd ac mae un flaenoriaeth weithredol (OP2) wedi'i graddio'n oren. Mae pob un ond dau o'r is-flaenoriaethau eu graddio'n wyrdd. Mae is-flaenoriaeth 2.2 (Gweithredu ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r sector Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant) wedi'i graddio'n goch ac mae is-flaenoriaeth 4.3 (Llywio gwaith blaengynllunio ar gyfer cymwysterau'r system gymwysterau yng Nghymru) wedi'i graddio'n oren.

- 6.2. Trafododd y bwrdd y ddwy is-flaenoriaeth gan ystyried yn benodol y rhesymau dros eu graddio'n goch ac oren a cheisio sicrwydd am y rhesymau dros yr oedi, gan nodi y cafodd lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant eisoes ei drafod eisoes yn ystod diwrnod datblygu'r Bwrdd ac yn adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.
- 6.3. Nododd fod y ddwy is-flaenoriaeth wedi gwella o oren i wyrdd yn ystod y chwarter (3.1 - Adolygu ein Hamodau Cydnabod Safonol a 3.3 - Ymgorffori a pharhau i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoleiddio).
- 6.4. Nododd y Bwrdd hefyd y llwyddiannau, y risgiau y tynnwyd sylw atynt, a'r goblygiadau ariannol ac Adnoddau Dynol yn yr adroddiad.
- 6.5. Nododd y Bwrdd yr adroddiad hyd at ddiwedd mis Medi 2018 (chwarter dau).

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad ar y cynllun gweithredol a nododd y cynnydd hyd at ddiwedd mis Medi 2018.

Adroddiad cyllid

- 6.6. Cyflwynodd KP yr adroddiad cyllid sy'n crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter dau. Cadarnhawyd yn yr adroddiad fod y Pwyllgor Adnoddau wedi adolygu'r sefyllfa fanwl a bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi adolygu'r broses gyllidebu yn unol â'u cylch gorchwyl.
- 6.7. Hysbysodd KP y Bwrdd fod amrywiant o £217k (7%) yn erbyn y gyllideb gronnu (£3.326m) a'r gwariant (£3.020). Adolygodd y Bwrdd y meysydd cyllidebol lle y nodwyd amrywiant a nododd y rhesymau dros yr amrywiannau. Nododd y Bwrdd hefyd, lle roedd amrywiannau annisgwyl, fod yr aelod perthnasol o'r tîm Gweithredol wedi cynnal adolygiadau pellach gyda deiliaid y gyllideb o ganlyniad i hyn.
- 6.8. Nododd KP fod y rhagolwg alldro, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth ddiweddaraf o ymrwymïadau diweddar a gwariannau posibl, yn rhagweld sefyllfa derfynol oedd rhwng £7.66m ac £8.22m, ond gyda'r disgwyliad cadarn y byddai hyn yn nes at ben isaf yr ystod hon ac yn is na'r grant o £8.042m a ddyfarnwyd ar gyfer eleni.
- 6.9. Trafododd y Bwrdd y sefyllfa bresennol a'r rhagolwg alldro a chadarnhaodd ei fod yn fodlon ar y rhagolwg ariannol. Nododd y Bwrdd hefyd fod y Pwyllgor Adnoddau wedi adolygu hyn yn fanwl a'i fod hefyd yn fodlon ar yr ystod. Hysbysodd y Bwrdd KP os, ym mis Rhagfyr, pan oedd angen darparu'r rhagolwg alldro i Lywodraeth Cymru, ei fod o fewn yr ystod o hyd, na fyddai angen ymgysylltu â'r Bwrdd ymhellach cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. Pe byddai'r ystod yn newid, yn enwedig y pwynt ystod is, yna dylai'r Pwyllgor Adnoddau gyfarfod i drafod hynny.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adolygiad cyllideb chwarter dau.

7. Cyfres Arholiadau'r Haf

- 7.1. Cyflwynodd JR y papur, a roddodd wybodaeth a oedd wedi cael ei thrafod yn fanwl eisoes yn y Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Hydref.
- 7.2. Rhoddodd JR gyflwyniad PowerPoint i'r Bwrdd a oedd yn rhoi trosolwg o'r cymwysterau a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn ystod haf 2018, y gweithgarwch monitro a gynhaliwyd, gohebiaeth â rhanddeiliad, digwyddiadau a chrynodeb o'r arolwg 'Dweud Eich Dweud'.
- 7.3. Rhoddodd JR drosolwg manwl o'r canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, TAG a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Trafododd y Bwrdd amrywiaeth o agweddau ar y cyflwyniad ar ganlyniadau, gan geisio eglurder a thrafod sawl maes.
- 7.4. Cadarnhaodd JR fod diwrnodau canlyniadau TGAU a TAG wedi mynd rhyngddynt yn ddiraffferth, bod y gwaith o gydgyssylltu â Llywodraeth Cymru wedi bod yn briodol a chymesur, ac yr ymddengys fod briffio'r cyfryngau wedi bod yn ddefnyddiol. Daeth JR â'i chyflwyniad i ben gyda chrynodeb o'r heriau a'r cyfleoedd roedd hi a'i thîm yn eu hystyried ar gyfer cyfres arholiadau nesaf yr haf.
- 7.5. Diolchodd y Bwrdd i JR am ei diweddariad a gafodd ei nodi. Gofynnodd y Bwrdd am eglurder a thrafododd sawl maes gan gynnwys y defnydd o'r Arolwg Dweud Eich Dweud a'r mesurau perfformiad ysgol. Gwnaeth y Bwrdd hefyd drafod y lleihad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a'r effaith a gafodd y lleihad mewn cofrestriadau cynnar ar ganlyniadau arholiad.
- 7.6. Diolchodd y Bwrdd i JR a'i thîm am eu holl waith yn monitro'r gyfres arholiadau – gwaith a oedd o safon uchel.
- 7.7. Rhoddodd JR y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr adroddiad a gafodd ei lunio a oedd yn adolygu dyfarniad cymhwyster TGAU Saesneg Iaith, gan esbonio y cafodd yr adolygiad sbarduno gan ohebiaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr adroddiad a oedd yn manylu ar ein canfyddiadau ei gyhoeddi ddiwedd mis Medi, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar wahân.
- 7.8. Cadarnhaodd JR a PB y daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y dyfarniad wedi'i wneud yn briodol. Cafodd cyfres o ohebiaeth ategol ei llunio ochr yn ochr â'r ymatebion i'r rhai a oedd yn cyfathrebu â'r sefydliad. Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb hefyd ac roedd rhai wrthi'n cael eu trefnu. Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru ar yr adeg briodol. Nododd y Bwrdd fod gan rai ysgolion bryderon o hyd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar gyfres arholiadau'r haf. Nododd y Bwrdd hefyd fod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi trafod yr eitem yn fanwl yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2018.

8. **leithoedd Tramor Modern – argaeledd ar gyfer Safon Uwch a Safon UG**

Ymunodd Emyr George â'r cyfarfod.

- 8.1. Cyflwynodd EG ei bapur yn amlinellu'r pryder ynghylch argaeledd parhaus cymwysterau Safon Uwch a Safon UG ym maes leithoedd Tramor Modern.
- 8.2. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau leithoedd Tramor Modern ar lefel Safon Uwch a Safon UG wedi bod yn lleihau. Mae'r duedd yn i'w gweld ledled y DU ac mae wedi cael cryn sylw. Yn 2018, roedd nifer y myfyrwyr yng Nghymru a oedd yn astudio'r pynciau hyn ar lefel Safon Uwch a Safon UG ar ei hisaf erioed.
- 8.3. O ganlyniad i'r nifer isel iawn o gofrestrïadau sy'n lleihau o hyd ar gyfer y pynciau hyn, yn ogystal â'r costau uchel iawn sy'n gysylltiedig â'u hasesu, mae CBAC wedi hysbysu Cymwysterau Cymru yn ffurfiol nad yw'n credu ei bod yn ymarferol cynnig cymwysterau Safon Uwch a Safon UG cymeradwy ar gyfer Cymru yn unig mwyach. Amlinellodd EG y pwyntiau allweddol o ohebiaeth CBAC ac esboniodd y gofynnwyd am ragor o wybodaeth a dadansoddi gan CBAC.
- 8.4. Amlinellodd EG bedwar opsiwn posibl o ran sut y gallai Cymwysterau Cymru ymateb. Teimlai'r Bwrdd bob opsiwn yn fanwl. Teimlodd y Bwrdd yn gryf fod leithoedd Tramor Modern yn gymwysterau pwysig i ddysgwyr a'i bod yn hollbwysig eu bod yn parhau i fod ar gael yng Nghymru.
- 8.5. Trafododd y Bwrdd y mater yn fanwl gan gydnabod bod y lleihad yn y pynciau hyn yn broblem y tu hwnt i Gymru a bod gan Lywodraeth Cymru rôl o ran ystyried y lleihad a pha gamau y gellid eu cymryd. Atgoffodd y Bwrdd EG a chydweithwyr mai rôl Cymwysterau Cymru yw rheoleiddio cymwysterau a rheoli'r system a reoleiddir, ac y dylai hyn fod yn egwyddor arweiniol.
- 8.6. Cytunodd y Bwrdd y dylai PB ac AE gyfarfod â CBAC er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y cymwysterau hyn i ddysgwyr yng Nghymru ac ymchwilio i bob opsiwn er mwyn eu cadw.

Cam gweithredu: PB ac AE i gyfarfod â CBAC er mwyn trafod ymarferoldeb cynnig cymwysterau leithoedd Tramor Modern Safon Uwch a Safon UG a gynigir gan CBAC yng Nghymru yn y dyfodol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y materion a oedd yn ymwneud ag ymarferoldeb cynnig cymwysterau leithoedd Tramor Modern Safon Uwch a Safon UG a gynigir gan CBAC yng Nghymru yn y dyfodol a goblygiadau posibl y cynnig gan CBAC i

dynnu ei ddarpariaeth yn ôl. Ystyriodd y Bwrdd y camau a gynigiwyd i sicrhau y bydd y cymwysterau hyn yn parhau i fod ar gael er mwyn rhoi mwy o amser i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r lleihad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio leithoedd Tramor Modern ar lefel Safon Uwch a Safon UG. Cytunodd y Bwrdd y dylai PB ac AE gyfarfod â CBAC.

9. Bwriad i ymgynghori – Meini Prawf Cydnabod (TGAU/TAG)

Ymunodd Rachel Heath-Davies â'r cyfarfod.

- 9.1. Cyflwynodd Kate Crabtree (KP) y papur yn amlinellu ei bod yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd mewn tri maes:
 - ar yr egwyddor o ddefnyddio meini prawf at y diben a fwriedir gan nodi y bydd ymgysylltu pellach, fel y bo'n briodol, â'r Pwyllgor Rheoleiddio er mwyn rhoi adborth ar y Meini Prawf drafft;
 - y Bwriad i ymgynghori ar Feini Prawf Cydnabod ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG;
 - dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo'r meini prawf terfynol i'r Pwyllgor Rheoleiddio.
- 9.2. Esboniodd KC, heb fod y Meini Prawf ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG ar waith, fod risg y gallai unrhyw gyrff dyfarnu cydnabyddedig sy'n bodoli eisoes gynnig y cymwysterau hyn. Os nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i wneud hynny neu os nad oeddent yn gwerthfawrogi'r gofynion ar gyfer y math hwn o gymhwyster yn llawn, gallai hyn danseilio neu niweidio brand TGAU/TAG, peryglu dysgwyr, a lleihau hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau. Mae meini prawf cymhwyster-benodol yn fodd i sicrhau y byddai gan gyrff dyfarnu y galluoedd gofynnol. Mae Deddf Cymwysterau Cymru yn rhoi'r pŵer i'r cyfryw feini prawf gael eu rhoi ar waith.
- 9.3. Amlinellodd KC fod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi trafod y meini prawf, ond penderfynwyd y dylai'r Bwrdd gadarnhau'r egwyddor o ran defnyddio meini prawf o'r fath. Gofynnodd y Pwyllgor i'r staff hefyd ailystyried rhywfaint o'r geiriad yn y meini prawf er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb o ran iaith / ystyr.
- 9.4. Ceisiwyd cymorth cyfreithiol ac roedd yn glir y dylai Meini Prawf ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG gael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau bod y gwaith o bennu addasrwydd unrhyw gorff dyfarnu i gyflwyno'r cyfryw gymwysterau yn gyson, ac y dylid defnyddio'r un Meini Prawf ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n bodoli eisoes sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn ac unrhyw gorff arall sy'n ymuno â'r farchnad.
- 9.5. Trafododd y Bwrdd y papur gan ofyn am eglurder lle bo angen. Cymeradwyodd y Bwrdd y defnydd o'r meini prawf, cymeradwyodd y bwriad i ymgynghori a chadarnhaodd ei fod yn dirprwyo cymeradwyo'r Meini Prawf terfynol cyn eu cyhoeddi, yn dilyn ymgynghoriad, i'r Pwyllgor Rheoleiddio. Anogodd y Bwrdd KC i sicrhau bod cyfnod priodol o amser ar gael er mwyn ymgynghori, rhwng 8 a 12 wythnos yn ddelfrydol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i ymgynghori ar y Meini Prawf Cydnabod ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG a'r egwyddor y tu ôl i'r gwaith o ddatblygu'r meini prawf a gofynnwyd i'r tîm Gweithredol ymgysylltu fel y bo'n briodol â'r Pwyllgor Rheoleiddio er mwyn rhoi adborth ar ddrafft pellach o'r Meini Prawf.
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y byddai'r Meini Prawf yn dychwelyd at y Pwyllgor Rheoleiddio ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, er mwyn cymeradwyo'r Meini Prawf terfynol i'w cyhoeddi.

10. Cytundeb Fframwaith Cymwysterau Cymru

- 10.1. Cyflwynodd HB y papur yn cadarnhau mai'r Cytundeb Fframwaith yw'r ddogfen lywodraethu allweddol rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, sy'n pennu'r berthynas rhwng y ddau sefydliad a'r penderfyniadau lle mae gofyn i Cymwysterau Cymru geisio cytundeb gan Lywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn agwedd sylweddol ar y fframwaith rheoli sy'n sail i roi cyllid grant i ni. Cafodd y fframwaith cyntaf (cyfredol) ei ddatblygu fel rhan o'r broses o greu'r sefydliad yn 2015 a chafodd ei lofnodi yn 2016 gan y ddau barti.
- 10.2. Nid ystyrir bod yr adolygiad yn hanfodol – adolygiad o arferion gwirioneddol nawr bod y sefydliad yn weithredol ydyw – mae'n rhoi cyfle i 'dacluso'r' ddogfen. Caiff y fframwaith hefyd ei symud i dempled newydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i greu ar gyfer pob corff a noddir. Nid yw rhai agweddau ar y templed yn berthnasol i Cymwysterau Cymru am ei fod yn sefydliad annibynnol – caiff y meysydd hyn eu dileu o'n fersiwn ni o'r fframwaith.
- 10.3. Amlinellodd HB y meysydd lle mae Cymwysterau Cymru yn gofyn am newid. Cawsant eu crynhoi fel a ganlyn: telerau ac amodau'r Prif Swyddog Gweithredol (ar gyfer penodiadau newydd), dyfarniad cyflog staff, terfyn cario drosodd (ar ddiwedd blwyddyn ariannol), gwariant prosiect TG, cadw incwm, nawdd ac adolygiad barnwrol. Nododd y Bwrdd y meysydd a amlinellwyd a gofynnodd am eglurder, yn enwedig mewn perthynas â chadw incwm a chario drosodd.
- 10.4. Nododd y Bwrdd y prif newidiadau arfaethedig a dirprwyodd y gwaith o gymeradwyo'r Cytundeb Fframwaith diwygiedig i Gadeirydd y Bwrdd. Pe byddai unrhyw faterion sylweddol yn codi yn ystod yr adolygiad, byddai'r Cadeirydd yn cyfeirio yn ôl at y Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Adolygodd y Bwrdd y prif newidiadau arfaethedig i'r Cytundeb Fframwaith a dirprwyodd y gwaith o gymeradwyo'r Cytundeb Fframwaith diwygiedig i Gadeirydd y Bwrdd.

11. Cadeirydd Cymwysterau Cymru y Dyfodol (gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio aelodau i'r Bwrdd)

- 11.1. Cadarnhaodd HB fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cadarnhau ei bod yn cymeradwyo i recriwtio dau aelod Bwrdd newydd a'r Cadeirydd i Fwrdd Cymwysterau Cymru.
- 11.2. Câi'r ddau aelod newydd o'r Bwrdd eu recriwtio gyda'r profiad/sgiliau canlynol:
- Cyfrifyddiaeth / rheoli ariannol
 - Pennaeth / profiad o weithio fel uwch aelod o staff mewn ysgol uwchradd
- 11.3. Nododd y Bwrdd y bwriedid i'r broses recriwtio ar gyfer y ddau aelod arferol ddechrau cyn y Nadolig.
- 11.4. Rhoddodd HB gyflwyniad yn amlinellu'r dull o recriwtio Cadeirydd newydd, gan gynnwys y gofynion drafft o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad. Cadarnhaodd HB fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cymeradwyo'r penderfyniad i ddefnyddio asiantaeth recriwtio ac y byddai Cymwysterau Cymru bellach yn dechrau proses gaffael er mwyn sicrhau contractwr priodol.
- 11.5. Trafododd y Bwrdd ofynion y Cadeirydd a chyfrannodd rai manylion at y meysydd gwybodaeth, sgiliau a phrofiad, meysydd yr ystyridd eu bod yn bwysig. Roedd y rhain yn cynnwys dealltwriaeth gref o addysg yng Nghymru, llywodraethu effeithiol, y gallu i arwain a rheoli newid, y gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a dylanwadu arnynt yn briodol.
- 11.6. Rhannodd y Bwrdd bryder ynghylch yr oedi cyn dechrau'r broses recriwtio gan nodi ei bod yn debygol mai ym mis Ionawr y byddai'r hysbyseb yn fyw. Nododd HB y pryderon a phwysleisiodd bwysigrwydd yr asiantaeth recriwtio o ran cefnogi'r broses recriwtio.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Rhoddodd y Bwrdd sylwadau ar y disgrifiad swydd drafft a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd cynnal proses recriwtio amserol.

12. Rheoli Risg

- 12.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad rheoli risg a'r gofrestr risg sefydliadol, gan grynhoi'r newidiadau i'r risgiau yr oedd eu sgôr weddilliol wedi cynyddu. Nid oedd sgôr unrhyw risgiau wedi lleihau, ac nid oedd unrhyw risg wedi cael ei hychwanegu na'i chau.
- 12.2. Roedd y risgiau oedd wedi cynyddu mewn perthynas â chymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, darparu cymorth TG i asiantaethau allanol a llinellau cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol. Trafododd y Bwrdd y risgiau a gwnaethant nodi'r gofrestr sefydliadol gyffredinol (corfforaethol a rheoleiddiol). Yn dilyn

trafodaeth, gofynnodd y Bwrdd i'r risg mewn perthynas ag leithoedd Tramor Modern gael ei hadolygu.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risg sefydliadol ddiweddaraf a'i nodi, gan ofyn i'r risg mewn perthynas ag leithoedd Tramor Modern gael ei hadolygu.

13. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

- 13.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 2 Hydref 2018. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 13.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 2 Hydref yn ymwneud â'r Amodau Cydnabod, a ystyriwyd yn gynharach ar agenda'r Bwrdd. Roedd eitemau eraill yn cynnwys cyfres arholiadau'r haf, a drafodwyd fel rhan o agenda'r Bwrdd hefyd, a Monitro cymwysterau Diogelwch Bwyd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio.

14. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

- 14.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 11 Hydref 2018. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 14.2. Ymhlith y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 11 Hydref roedd archwiliad mewnol (cafwyd sgôr sylweddol am yr archwiliad o'r rheolaethau ariannol), polisiâu Chwythu'r Chwiban, Rhoddion a Lletygarwch a Thwyll. Ymchwiliwyd yn drylwyr i faes parhad busnes a chafodd crynodeb o'r adolygiad Seiberddiogelwch Cenedlaethol ei ystyried. Cafodd rheoli risg, caffael, diogelwch gwybodaeth ac eitemau sefydlog eraill eu hystyried hefyd.
- 14.3. Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd bod yr Archwilwyr Mewnol newydd yn bodloni disgwyliadau cytundebol, a chadarnhaodd HB fod hyn yn wir.
- 14.4. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor hefyd mai cyfarfod olaf Rheon Tomos fel aelod o'r Bwrdd oedd cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a diolchodd iddo am ei gyfraniadau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- ii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

15. Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau

- 15.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 16 Hydref 2018. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 15.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 16 Hydref yn ymwneud ag adolygu a chymeradwyo'r polisi Urddas yn y Gwaith a diweddariad Adnoddau Dynol. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd ystyried y broses o gynllunio busnes yn y dyfodol, ac ymchwiliodd yn drylwyr i risgiau Ymchwil, a gafodd ei groesawu ac a oedd yn ddefnyddiol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y swyddogaeth ymchwil yn datblygu'n dda a rhoddwyd canmoliaeth i Tom Anderson a'i dîm am y gwaith a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau.

16. Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor

- 16.1. Cadarnhaodd HB y gwnaed penderfyniad y tu allan i'r Pwyllgor, sef cymeradwyo'r penderfyniad i gyfyngu ar gymwysterau CBE fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, ar gyfer cymwysterau sylfaen, cymwysterau cynnydd a phrentisiaethau. Gwnaeth HB roi trosolwg o'r papur yn crynhoi ymatebion y Bwrdd y tu allan i'r Pwyllgor, ac roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r penderfyniad. Nododd y Bwrdd y penderfyniad terfynol yn ffurfiol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y penderfyniad a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor a oedd yn cadarnhau ei gymeradwyaeth i gyfyngu ar gymwysterau CBE fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, ar gyfer cymwysterau sylfaen, cymwysterau dilyniant a phrentisiaethau.

17. Unrhyw Fater Arall

- 17.1. Nododd AS fod y sefydliad wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Go! am gaffael cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Caiff y noson wobrwyo ei chynnal ym mis Tachwedd. Dymunodd y Bwrdd yn dda i'r staff yn y digwyddiad.

17.2.

17.3. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gyfrannu at y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.00. Cynhaliwyd dau gyfarfod Bwrdd caeedig yn dilyn cyfarfod y Bwrdd.

Diwedd